# Cyhoeddi Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a Chanllawiau Ymarfer diwygiedig, a chyflwyno Fframwaith Cymwyseddau yng Nghymru

Mae’r Cod yn darparu canllawiau statudol i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd (PHAs) ar y dull y dylent ei ddefnyddio i reoleiddio busnesau bwyd.

Mae’r ASB wedi adolygu a diwygio’r Cod, gan ddwyn i ystyriaeth yr ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad diweddar, a chan sicrhau bod y Cod yn adlewyrchu blaenoriaethau, polisïau, a gofynion deddfwriaethol cyfredol, fel bod cyflawni gweithgareddau rheoli bwyd swyddogol gan awdurdodau lleol a PHAs yn parhau i fod yn effeithiol, yn gyson ac yn gymesur.

Mae'r newidiadau allweddol yn y diwygiad hwn i’r Cod yn cynnwys:

- moderneiddio'r gofynion cymwysterau trwy ehangu’r rhestr o gymwysterau ‘addas’ i alluogi awdurdodau lleol a PHAs i gydnabod yn llawn botensial carfan ehangach o weithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd yr amgylchedd a safonau masnach er mwyn cynnal gweithgareddau rheoli bwyd swyddogol, a bwrw eu bod yn gallu dangos eu bod yn gymwys
- disodli'r gofynion cymhwysedd cyfredol gyda'r Fframwaith Cymwyseddau sy'n diffinio cymhwysedd yn ôl gweithgaredd yn hytrach na rôl
- y diwygiadau golygyddol angenrheidiol yn sgil Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (UE) 2017/625, a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2019, a goblygiadau ymadael â’r Undeb Ewropeaidd (UE)
- strwythur a fformat diwygiedig i wella darllenadwyedd a hyrwyddo cysondeb wrth ddehongli a gweithredu

Meddai Nathan Barnhouse, Cyfarwyddwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru:

> “Rydym ni’n cydnabod bod angen i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd ddefnyddio eu pobl fedrus lle mae eu hangen fwyaf, ac rydym ni wedi ymrwymo i ddiwygio rheoliadol eang sy'n cynorthwyo cyflawni hyn.
>
> Bydd y Cod a’r Canllawiau Ymarfer diwygiedig, a chyflwyno’r Fframwaith Cymwyseddau, yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd ddefnyddio gweithwyr proffesiynol allweddol, gan eu galluogi i recriwtio unigolion â chymwysterau addas i ymgymryd â gweithgareddau penodol, pe byddent yn dewis gwneud felly.

Bydd hyn yn helpu i leddfu'r heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth recriwtio pobl i ddarparu eu gwasanaeth bwyd, gan sicrhau ar yr un pryd y gall defnyddwyr barhau i ddibynnu ar reolaethau bwyd sy’n cael eu cynnal gan bobl â chymwysterau addas.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd y Cod yn cael ei adolygu ymhellach er mwyn gweithredu rhaglen foderneiddio'r ASB ar gyfer diwygio'r model cyflenwi rheoliadol. Bydd hyn yn sicrhau trefn addas a chynaliadwy a fydd yn diogelu defnyddwyr”.

I gael rhagor o wybodaeth am y Codau Ymarfer, y Canllawiau Ymarfer a'r Fframwaith Cymwyseddau, ewch i dudalen we Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yr ASB. I ddarllen crynodeb o’r ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad, ewch i'r dudalen ymgynghori.

Cyhoeddodd yr ASB Godau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Chanllawiau Ymarfer diwygiedig, a chyflwynodd Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2021.